Gwasanaeth Cefnogi Swyddog Diogelu Data
Data Protection Officer Support Service
IGDC • DHCW

# Hysbysiad Preifatrwydd (Staff)

Templed

Fersiwn: 6.0

Diweddarwyd ddiwethaf: 12/08/2026

Bydd y ddogfen hon yn esbonio sut mae The Vale Of Neath Practice yn defnyddio eich data personol ac yn egluro eich hawliau o dan ddeddfwriaeth diogelu data.

The Vale Of Neath Practice yw'r rheolydd data ar gyfer yr wybodaeth bersonol rydym yn ei phrosesu a'i chadw. Mae'r practis wedi ymrwymo i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol ac i barchu eich preifatrwydd. Mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i egluro sut rydym yn defnyddio'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch chi fel aelod o staff (sy'n cynnwys holl weithwyr, cyn-weithwyr, staff asiantaeth, contractwyr) yn ein practis.

# Pa wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu amdanoch chi a sut rydyn ni'n ei defnyddio

## Gwybodaeth yn ymwneud â'ch cyflogaeth

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i gyflawni ein gweithgareddau a'n rhwymedigaethau fel cyflogwr ac i gyflawni'r contract sydd gennym gyda chi. Mae hyn yn cynnwys darparu mynediad i chi at y gwasanaethau sy'n ofynnol ar gyfer eich rôl a rheoli ein prosesau adnoddau dynol. Mae'r wybodaeth y gallwn ei defnyddio yn cynnwys:

- Manylion cyswllt personol megis eich enw, cyfeiriad, rhifau ffôn cyswllt (llinell dir a ffôn symudol) a chyfeiriadau e-bost personol.
- Eich dyddiad geni, rhywedd, a rhif Yswiriant Gwladol.
- Copi o'ch pasbort neu ddogfennau adnabod ffotograffig a / neu ddogfennau prawf o'ch cyfeiriad tebyg (dim ond i brofi pwy ydych chi, nid yw'r rhain yn cael eu storio)
- Statws priodasol.
- Hanes cyflogaeth ac addysg gan gynnwys eich cymwysterau, cais am swydd, tystlythyrau cyflogaeth, gwybodaeth am eich hawl i weithio (o dan adran 8 o Ddeddf Lloches a Mewnfudo 1996)
- Lleoliad cyflogaeth.
- Manylion eich presenoldeb yn y gwaith a chyfnodau o absenoldeb a gymerwyd (gan gynnwys unrhyw resymau dros absenoldeb e.e. salwch, mamolaeth, tadolaeth).
- Manylion unrhyw gyflogaeth eilaidd ac unrhyw ddatganiadau gwleidyddol, gwrthdaro buddiannau neu roddion.
- Gwiriadau sylfaenol a manylion cliriad diogelwch uwch (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, y Cyngor Meddygol Cyffredinol ac ati) yn ôl rôl eich swydd.
- Unrhyw euogfarnau troseddol rydych chi'n eu datgan i ni.
- Eich atebion i arolygon staff os nad yw'r data hyn yn ddienw.

## Gwybodaeth yn ymwneud â'ch cyflog a'ch pensiwn

Rydym yn prosesu'r wybodaeth hon ar gyfer talu'ch cyflog, pensiwn, a buddion eraill sy'n gysylltiedig â chyflogaeth. Rydym hefyd yn ei phrosesu ar gyfer gweinyddu hawliau absenoldeb statudol a chytundebol, megis gwyliau neu absenoldeb mamolaeth, mae'r wybodaeth y gallwn ei defnyddio yn cynnwys:

- Gwybodaeth am eich swydd a'ch contract cyflogaeth gan gynnwys; eich dyddiadau cychwyn a gadael, cyflog (gan gynnwys gradd a band cyflog), unrhyw newidiadau i'ch contract cyflogaeth, patrymau gweithio (gan gynnwys unrhyw geisiadau am weithio'n hyblyg).
- Manylion am yr amser rydych yn ei weithio ac unrhyw oramser, treuliau neu daliadau eraill a hawliwyd.
- Manylion am unrhyw absenoldeb gan gynnwys absenoldeb oherwydd salwch, gwyliau blynyddol, absenoldeb arbennig.
- Manylion am eich pensiwn gan gynnwys aelodaeth o gynlluniau pensiwn gwladol a galwedigaethol (cyfredol a blaenorol).

- Manylion eich cyfrif banc, cofnodion y gyflogres a gwybodaeth am eich statws treth.
- Manylion yn ymwneud ag absenoldeb a thâl Mamolaeth, Tadolaeth, Rhiant a Rennir a Mabwysiadu. Mae hyn yn cynnwys ffurflenni i wneud cais am yr absenoldeb perthnasol, copïau o ffurflenni MATB1 / tystysgrifau paru ac unrhyw ddogfennaeth berthnasol arall sy'n ymwneud â natur yr absenoldeb y byddwch chi'n ei gymryd.

## Gwybodaeth yn ymwneud â'ch perfformiad a'ch hyfforddiant

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i asesu'ch perfformiad, i gynnal adolygiadau tâl a graddio ac i ddelio ag unrhyw anghydfodau sy'n ymwneud â chyflogwyr/gweithwyr. Rydym hefyd yn ei defnyddio i ddiwallu'r anghenion hyfforddi a datblygu sy'n ofynnol ar gyfer eich rôl.

- Gwybodaeth yn ymwneud â'ch perfformiad yn y gwaith e.e. adolygiadau cyfnod prawf, adolygiadau datblygiad personol a dyrchafiadau.
- Materion ac ymchwiliadau ynghylch cwynion ac urddas yn y gwaith y gallech fod yn rhan ohonynt neu'n dyst iddynt.
- Cofnodion disgyblu a dogfennaeth yn ymwneud ag unrhyw ymchwiliadau, gwrandawiadau a rhybuddion/cosbau a roddwyd.
- Pryderon chwythu'r chwiban a godwyd gennych chi, neu y gallech fod yn rhan ohonynt neu'n dyst iddynt.
- Gwybodaeth yn ymwneud â'ch hanes hyfforddi a'ch anghenion datblygu.

## Gwybodaeth yn ymwneud â monitro

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i asesu eich cydymffurfiad â pholisïau a gweithdrefnau corfforaethol ac i sicrhau diogelwch ein hadeiladau, systemau TG a gweithwyr.

- Gwybodaeth am eich mynediad at ddata sydd gennym at ddibenion gorfodi troseddol os ydych chi'n ymwneud â'r gwaith hwn.
- Gwybodaeth sy'n deillio o fonitro safonau defnydd derbyniol TG.
- Lluniau a delweddau teledu cylch cyfyng.

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth ganlynol i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol ac i fonitro cyfleoedd cyfartal. Rydym hefyd yn ei defnyddio i sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant ein gweithwyr.

- Gwybodaeth iechyd a llesiant naill ai wedi'i datgan gennych chi neu a gafwyd o wiriadau iechyd, archwiliadau llygaid, atgyfeiriadau ac adroddiadau iechyd galwedigaethol, ffurflenni absenoldeb oherwydd salwch, holiaduron rheoli iechyd neu nodiadau ffitrwydd h.y Datganiad Ffit i Weithio gan eich meddyg teulu neu ysbyty.
- Cofnodion damweiniau - os cewch ddamwain yn y gwaith.
- Manylion am unrhyw asesiadau desg, anghenion mynediad neu addasiadau rhesymol.
- Gwybodaeth rydych chi wedi'i darparu ynghylch Nodweddion Gwarchodedig fel y'u diffinnir gan y Ddeddf Cydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys tarddiad hiliol neu ethnig, credoau crefyddol, statws anabledd a hunaniaeth o ran rhywedd a gellir ymestyn hyn i gynnwys nodweddion gwarchodedig eraill.

Rydym wedi ymrwymo i barchu disgwyliadau preifatrwydd rhesymol defnyddwyr unigol o ran defnyddio ein systemau TG (Technoleg gwybodaeth) ac offer. Fodd bynnag, rydym yn cadw'r hawl i gofnodi a monitro defnydd o'r fath yn unol â'n Polisi Defnydd Derbyniol.

Bydd unrhyw fonitro wedi'i dargedu o staff yn digwydd yng nghyd-destun ein gweithdrefnau disgyblu.

## Sut mae'ch data personol yn cael eu casglu?

I raddau helaeth, bydd gwybodaeth bersonol amdanoch chi yn cael ei chasglu'n uniongyrchol gennych yn ystod eich recriwtio a'ch cyflogaeth. Gellir hefyd casglu gwybodaeth bersonol mewn rhai amgylchiadau trwy wiriadau cenedlaethol, megis y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, cofrestriad Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, cofrestriad Cyngor Meddygol Cyffredinol. Yn ogystal, efallai y bydd eich gwybodaeth yn cael ei chasglu gan systemau teledu cylch cyfyng o fewn y Practis pan gaiff eich llun ei dynnu wrth fynd i mewn ac allan o safle'r practis.

## Partneriaid y gallem rannu eich gwybodaeth â hwy

Byddwn yn datgelu gwybodaeth amdanoch pan fo'n gyfreithiol ofynnol arnom i wneud hynny. Mewn rhai achosion, gall hyn fod yn arferol (e.e.: Cyllid a Thollau EF), rhai fesul achos (e.e.: Gwarant). Ond bydd pob cais arall yn cael ei drin fesul achos yn unol â chyfraith diogelu data. Byddwn ond yn rhannu gwybodaeth bersonol â'r asiantaethau a'r cyrff hynny sydd "angen gwybod".

Lle bo hynny'n bosibl, byddwn bob amser yn sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn ddienw neu o dan ffugenw er mwyn diogelu cyfrinachedd, oni bai bod sail gyfreithiol sy'n caniatáu inni ei defnyddio a ni fyddwn ond yn defnyddio/rhannu gwybodaeth angenrheidiol. Fodd bynnag, mae adegau pan fydd yr arfer o rannu gwybodaeth a ddarperir i ni â chyrff eraill yn ofynnol yn ôl y gyfraith h.y cyrff sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu arian cyhoeddus er mwyn atal a chanfod twyll.

Ar gyfer unrhyw gais i drosglwyddo'ch data yn rhyngwladol y tu allan i'r DU/UE, er nad ydym yn rhagweld y bydd unrhyw gais o'r fath, pe bai cais yn cael ei dderbyn, byddai'n cael ei drin yn unol â chyfraith diogelu data a chyngor cyfredol gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Mae nifer o amgylchiadau pan fo RHAID i ni rannu gwybodaeth amdanoch chi i reoli neu gydymffurfio â'r canlynol:

- Prosesau disgyblu / ymchwilio
  - Cyrff Proffesiynol
    - Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
    - Y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC)
- Gofynion deddfwriaethol a/neu statudol.
- Gorchymyn Llys a allai fod wedi'i osod arnom;
- Cais am wybodaeth gan yr heddlu neu gais am gymorth gan y Practis i'r Heddlu a/neu asiantaethau gweithredu'r gyfraith eraill i atal a chanfod trosedd a/neu dwyll os yw'r drosedd yn un ddifrifol.

Mae nifer o amgylchiadau lle GALLWN rannu gwybodaeth amdanoch chi i reoli neu gydymffurfio â rhai trydydd partïon: -

- Asiantaethau'r llywodraeth - Yr Adran Gwaith a Phensiynau ac asiantaethau sy'n gweithio ar ran y Llywodraeth h.y. Capita, gofynion Archwilio Amgylcheddol, Cynghorau (gofynion lleol)
- Archwilwyr allanol
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) at ddibenion arolygu gwasanaethau'r GIG yn erbyn ystod o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau.
- Cyllid a Thollau EF, at ddibenion casglu cyfraniadau treth ac yswiriant gwladol
  - Budd-daliadau
  - Ymchwiliadau
  - Cyfraniadau buddiant mewn nwyddau
  - Cyfrifiadau P60
- Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC), Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) a GIG Lloegr at ddibenion cyhoeddi Cardiau Clyfar GIG a'r Gwasanaeth Hunaniaeth Gofal (GHG). Mae

rhagor o wybodaeth am CIS a sut mae eich data'n cael ei brosesu ar gael yma: Privacy notice - NHS England Digital

- The Practice subscribes to Citation for Health & Safety and HR advice.

## Ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol

Bydd y practis yn defnyddio ac yn rhannu eich gwybodaeth dim ond pan fydd sail gyfreithiol ar gyfer gwneud hynny.

Mae angen i ni wybod eich data personol, sensitif a chyfrinachol at ddibenion eich cyflogaeth. Yn gyffredinol, o dan GDPR y DU, byddwn yn dibynnu ar un o'r seiliau cyfreithiol canlynol:

**• Erthygl 6(1)(b) sy'n ymwneud â phrosesu sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni ein contract gyda chi**

**• Erthygl 6(1)(c) fel y gallwn gydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol fel eich cyflogwr**

Pan fyddwn yn prosesu data categori arbennig, byddwn yn dibynnu'n gyffredinol ar un o'r amodau prosesu canlynol:

**• Erthygl 9(2)(b) sy'n ymwneud â chyflawni ein rhwymedigaethau ac arfer ein hawliau mewn cyflogaeth a diogelu'ch hawliau sylfaenol**

**• Erthygl 9(2)(h) at ddibenion meddygaeth ataliol neu alwedigaethol ac asesu eich gallu i weithio fel gweithiwr**

Pan fyddwn yn prosesu gwybodaeth am euogfarnau a throseddau troseddol staff, y sail gyfreithiol rydym yn dibynnu arni i brosesu'r data hwn yw:

- **Erthygl 10 GDPR y DU - Prosesu data personol sy'n ymwneud ag euogfarnau troseddol a throseddau.**
- **Adran 10(5) o Ddeddf Diogelu Data 2018, dim ond os yw'n bodloni Rhan 1,2,3 o Atodlen 1**.

## Cadw/Cynnal a Chadw eich Gwybodaeth Bersonol/Storio'ch Gwybodaeth

Cedwir copïau caled ac electronig o'ch gwybodaeth bersonol am gyfnodau penodol fel y nodir yn yr atodlen cadw cofnodion outlined in VON Records Management Policy V2026.5.0.

## Sut i Gysylltu â Ni

Cysylltwch â'r practis os oes gennych unrhyw gwestiynau am ein hysbysiad preifatrwydd neu am yr wybodaeth rydym yn ei chadw amdanoch drwy'r dulliau canlynol:

ENW'R PRACTIS: The Vale Of Neath Practice, Vale Of Neath Medical Centre, Glynneath Road, Glynneath, Neath, SA11 5AT.

FFÔN: 01639 509050

E-BOST: practice.manager.w98046@wales.nhs.uk

Os oes gennych bryderon ynghylch sut rydym yn prosesu eich data personol, gallwch wneud cwyn drwy practice.manager.w98046@wales.nhs.uk.

## Ceisiadau am eirdaon cyfrinachol

Os byddwch chi'n gadael, neu'n ystyried gadael, efallai y bydd eich cyflogwyr newydd neu ddarpar gyflogwyr yn gofyn i ni ddarparu geirda. Mae geirdaon cyfrinachol yn dod o dan eithriad rhag cael eu datgelu o dan y gyfraith diogelu data. Felly, er y gall y practis ddewis datgelu'r wybodaeth hon, ni all testun y data ddefnyddio GDPR y DU i ofyn am gwblhau'r rhain.

Geirdaon cyfrinachol - Mae eithriad rhag GDPR y DU yn berthnasol os ydych chi'n rhoi neu'n derbyn geirda cyfrinachol at y dibenion arfaethedig neu wirioneddol:

- addysg, hyfforddiant, neu gyflogaeth unigolyn;
- lleoli unigolyn fel gwirfoddolwr;
- penodi unigolyn i'w swydd; neu
- ddarpariaeth gan unigolyn o unrhyw wasanaeth.

Mae'n eich eithrio rhag darpariaethau GDPR y DU ar:

- yr hawl i gael gwybod;
- yr hawl i gael mynediad; ac
- yr holl egwyddorion, ond dim ond i'r graddau y maent yn ymwneud â'r hawl i gael gwybod a'r hawl i gael mynediad.

## Manylion Cyswllt ein Swyddog Diogelu Data

Mae'n ofynnol ar y practis i benodi Swyddog Diogelu Data. Mae hon yn rôl hanfodol wrth hwyluso atebolrwydd y practis a chydymffurfiaeth â Deddfwriaeth Diogelu Data'r DU.

**Ein Swyddog Diogelu Data yw:**

Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)
Llywodraethu Gwybodaeth, Gwasanaeth Cymorth y Swyddog Diogelu Data
6ed Llawr, Tŷ Glan-yr-Afon
21 Heol Ddwyreiniol y Bont-faen
Caerdydd
CF11 9AD
E-bost: DPOService@wales.nhs.uk

## Eich Hawliau

Mae Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) yn cynnwys nifer o hawliau.  Yn gyffredinol, rhaid i ni ymateb i geisiadau mewn perthynas â'r hawliau o fewn un mis, er bod rhai eithriadau i hyn.

Mae argaeledd rhai o'r hawliau hyn yn dibynnu ar y sail gyfreithiol sy'n berthnasol mewn perthynas â phrosesu eich data personol, ac mae rhai amgylchiadau lle na fyddwn yn cadarnhau cais i arfer hawl.

Mae eich hawliau a sut maent yn berthnasol wedi'u disgrifio isod.

## Yr hawl i gael gwybod

Mae eich hawl i gael gwybod wedi'i bodloni gan ddarpariaeth yr hysbysiad preifatrwydd hwn, yn ogystal â gwybodaeth debyg pan fyddwn yn cyfathrebu â chi'n uniongyrchol.

## Yr Hawl i gael Mynediad

Mae gennych yr hawl i gael copi o'r data personol rydym yn eu cadw amdanoch chi, yn ogystal â darnau eraill o wybodaeth a nodir yn GDPR y DU, er bod rhai eithriadau i'r hyn y mae'n ofynnol i ni ei ddatgelu.

## Yr Hawl i Gywiro

Mae gennych yr hawl i ofyn i ni gywiro unrhyw ddata ffeithiol anghywir sydd gennym amdanoch.

## Yr Hawl i Ddileu ('hawl i gael eich anghofio')

Mae gennych yr hawl i ofyn i ni gael gwared ar ddata personol sydd gennym amdanoch. Nid yw hon yn hawl absoliwt ac, yn dibynnu ar y sail gyfreithiol sy'n berthnasol, efallai y bydd gennym seiliau cyfreithiol pwysicach i barhau i brosesu'r data.

## Yr Hawl i Gyfyngu ar Brosesu

Mae gennych yr hawl i ofyn i ni gyfyngu ar brosesu'r data personol sydd gennym. Gallwch ofyn i ni wneud hyn, er enghraifft, lle rydych yn dadlau pa mor gywir yw'r data.

## Yr Hawl i Gludadwyedd Data

Mae'r hawl yn berthnasol lle mae'r data'n cael eu cadw ar ffurf electronig YN UNIG AC wedi'u darparu'n uniongyrchol i'r rheolwr data gan destun y data.

## Yr Hawl i Wrthwynebu

Mae gennych yr hawl i wrthwynebu prosesu data personol amdanoch ar unrhyw adeg. Nid yw'r hawl yn absoliwt, ac efallai byddwn yn parhau i ddefnyddio'r data os gallwn ddangos seiliau cyfreithlon cadarn.

## Hawliau yn ymwneud â gwneud penderfyniadau unigol awtomatig, gan gynnwys proffilio

Er mwyn cydymffurfio â GDPR y DU, bydd gennym sail gyfreithlon i gynnal proffilio a/neu wneud penderfyniadau'n awtomatig a dogfennu hyn yn ein polisi diogelu data. Rydym yn esbonio sut y gallwch weld manylion yr wybodaeth a ddefnyddiwyd gennym i greu eich proffil. Rydym yn rhoi gwybod i chi pwy roddodd eich data personol i ni a sut y gallwch chi wrthwynebu proffilio, gan gynnwys proffilio at ddibenion marchnata. Mae gennym weithdrefnau i chi gael mynediad i'r mewnbwn data personol i'r proffiliau, fel bod modd i ni adolygu a golygu unrhyw faterion ynghylch cywirdeb. Rydym ond yn casglu'r lleiafswm o ddata sydd eu hangen ac mae gennym bolisi cadw clir ar gyfer y proffiliau rydym yn eu creu.

## Yr hawl i gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth

Mae gennych yr hawl i gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth os nad ydych yn hapus ag unrhyw agwedd ar weithdrefnau prosesu'ch data personol y practis, neu os ydych yn credu nad ydym yn bodloni'n cyfrifoldebau fel rheolydd data. Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane,
Wilmslow, SK9 5AF

Gwefan: www.ico.org.uk

Ffôn: 0303 123 1113

E-bost: wales@ico.org.uk